

# University of South Wales Prifysgol De Cymru



**Ysbrydoledig**  
**Inspiring**



**Ymatebol**  
**Responsive**



**Creadigol**  
**Creative**



**Proffesiynol**  
**Professional**

## POLISI RHEOLI YNNI

Ystadau a Chyfleusterau

Teitl:					
Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o Unrhyw Newid	Awdur	Cymeradwywyd Gan/Dyddiad	Dyddiad Adolygu Nesaf
1.0	25/03/2019	Fersiwn Gyntaf	A Milanese	<i>J Elydon</i> 15.04.2019	



# CYNNWYS

## 1.0 Cyflwyniad



## Polisi Rheoli Ynni Prifysgol De Cymru

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Prifysgol De Cymru yn sefydliad sy'n defnyddio llawer o ynni. Mae gan y Brifysgol rôl bwysig i'w chwarae i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, drwy ostwng ei allyriadau CO<sub>2</sub> yn sylweddol. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i reoli ynni a charbon yn gyfrifol, ac mae hyn wedi'i wreiddio yn ein Gwerthoedd Craidd; Proffesiynol, Ymatebol, Ysbrydoledig a Chreadigol. Mae hyn hefyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.
- 1.2. O ran cyfleustodau, bydd lleihau ein defnydd o'r rhain yn lleihau'r costau a'r allyriadau y mae ein sefydliad yn eu creu, gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a rhyddhau rhagor o arian i wella profiadau myfyrwyr yn y Brifysgol. Yn ogystal â hyn, bydd rheoli ein hadeiladau'n well yn ei gwneud yn fwy cysurus i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, ac yn creu amgylchedd mwy dymunol ar gyfer gweithio a dysgu yn y Brifysgol.
- 1.3. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i leihau ei defnydd o ynni, a'i heffaith o ran carbon, drwy gyflawni'r nodau canlynol:
  - Cyflwyno mesurau i ddefnyddio ynni'n effeithlon yn ein hadeiladau
  - Trefnu ymgyrchoedd eang i godi ymwybyddiaeth am ynni ymhlith staff a myfyrwyr
  - Ennyn diddordeb staff a myfyrwyr drwy'r Brifysgol i gyd yn y pwnc, a'u hannog i fod yn llysgenhadon dros gynaliadwyedd
  - Cynnwys cynlluniau ar gyfer defnyddio ynni'n effeithlon mewn adeiladau newydd ac mewn gwaith adnewyddu
  - Ystyried costau ynni dros gylch bywyd pob prosiect newydd
  - Gwneud yn siŵr ein bod yn cael ein hynni o ffynonellau cwbl adnewyddadwy
  - Sicrhau bod yr holl gyfarpar perthnasol yn yr adeiladau wedi'u cysylltu â System Reoli'r Adeiladau
  - Rhoi rhaglen is-fesuryddion ar waith drwy'r Brifysgol i gyd er mwyn casglu data am ddefnydd o gyfleustodau
  - Rhoi rhaglen archwiliadau ynni gyson ar waith



- Creu amserlenni cwrs sy'n lleihau cymaint ag y bo modd ar yr angen am wres/golau y tu allan i oriau craidd y Brifysgol
- Creu amgylcheddau hyblyg ar gyfer gweithio y gall pawb fanteisio arnynt i leihau nifer yr adeiladau sy'n gorfod bod ar agor ar benwythnosau/y tu allan i oriau craidd
- Mynd ati'n rheolaidd i gynnal gwaith cynnal a chadw ar offer a chyfarpar i helpu i sicrhau eu bod yn gweithio mor effeithlon ag y bo modd
- Prynu nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr sydd ag ymrwymiad cadarnhaol i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac effeithlonrwydd ynni
- Prynu offer a chyfarpar sy'n defnyddio ynni'n effeithlon wrth adeiladu o'r newydd, wrth atgyweirio ac adnewyddu ac wrth wneud gwaith uwchraddio
- Cyhoeddi targedau clir ac adrodd yn ôl am gynnydd a wnaed o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Gweithio'n unol â Pholisi Tymheredd y Brifysgol
- Rhwystro pobl rhag defnyddio gwresogyddion trydan cludadwy oni bai fod yr Adran Ystadau a Chyfleusterau wedi caniatáu hynny
- Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ar leihau carbon a defnyddio ynni'n effeithlon

**Mae'r polisi hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Is-Ganghellor y Brifysgol a bydd yn cael ei rannu â'r holl aelodau o staff a myfyrwyr y mae eu gweithgareddau'n effeithio ar ein defnydd o ynni.**

